



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

# Seremoni wobrwyo 2020, yr enillwyr a'r rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol

Dysgwch fwy am enillwyr a'r rhai a gyrhaeddodd rownd derfynol Gwobrau 2020 a gwyliwch seremoni wobrwyo 2020.

First published: 10 September 2019

Last updated: 25 September 2022

This document was downloaded from [socialcare.wales](https://socialcare.wales) and may not be the latest version.

Go to <https://gofalcymdeithasol.cymru/seremoni-wobrwyo-2020-yr-enillwyr-ar-rhai-a-gyrhaeddodd-y-rownd-derfynol> for the latest version.

Dysgwch fwy am enillwyr a'r rhai a gyrhaeddodd rownd derfynol Gwobrau 2020 a gwyliwch seremoni wobrwyo 2020.

## **Seremoni wobrwyo'r Gwobrau 2020**

Cynhaliwyd seremoni wobrwyo'r Gwobrau 2020 yn rithwir dydd Mawrth, 10 Tachwedd 2020.

Darllledwyd y rhaglen rithwir, a gafodd ei chyflwyno gan Garry Owen, cyflwynydd radio a theledu'r BBC, a Sue Evans, ein Prif Weithredwr, yn fyw ar YouTube.

[Gwyliwch recordiad y seremoni ar YouTube.](#)

[Gwyliwch recordiad y seremoni gyda chyfieithiad Iaith Arwyddion Prydeinig ar YouTube.](#)

## **Categoriâu, enillwyr a'r rhai a gyrhaeddodd rownd derfynol y Gwobrau 2020**

Dewiswyd 14 prosiect a phum gweithiwr gofal gan ein panel o feirniaid i gyrraedd rownd derfynol y Gwobrau 2020. Roedd chwe chategori ac un enillydd ym mhob categori.

[Gwyliwch y fideos am ein holl brosiectau ysbrydoledig.](#)

## **Adeiladu dyfodol disglair gyda phlant a theuluoedd**

Dathlu prosiectau sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd i'w helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

## **Enillydd**

**Gwasanaeth Mentor Rhieni Navigate @ Scope** - Ar gyfer ei brosiect yn cynnig cymorth pwrpasol i rieni sydd â phlentyn ar lwybr tuag at gael diagnosis o anabledd neu nam, neu sydd wedi cael diagnosis o fewn y 12 mis diwethaf. Mae'n darparu cymorth emosiynol ac ymarferol teilwredig i rieni a gofalwyr, sy'n eu helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w plentyn.

## **Y rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** - Ar gyfer ei brosiect 'Model Cymorth i Deuluoedd Conwy', gyda phum tîm yn y gymuned yn cynnig cymorth i deuluoedd. Hefyd, mae'r prosiect wedi datblygu adnodd dwyieithog i'w ddefnyddio gyda theuluoedd i ddatblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw, eu hanghenion a'u blaenoriaethau, cynllun gweithredu a llwybr at gymorth pellach.

**Cyngor Bro Morgannwg** - Ar gyfer ei brosiect 'Gwasanaeth Rhianta Teuluoedd yn Gyntaf y Fro' yn cynorthwyo teuluoedd i adeiladu ar eu cryfderau a gwneud newidiadau cadarnhaol, gan helpu rhieni i deimlo'n fwy hyderus i reoli ymddygiad, arferion a ffiniau. Mae'n canolbwyntio ar hybu llesiant emosiynol a chefnogi perthnasoedd teuluol cadarnhaol, ac mae'n elwa o gefnogaeth arbenigol gan fydwragedd.

## **Datblygu ac ysbrydoli gweithlu yfory**

Dathlu prosiectau sy'n defnyddio dulliau effeithiol, creadigol ac arloesol o ddatblygu'r gweithlu er mwyn bodloni galw a disgwyliadau'r presennol a'r

dyfodol.

## **Enillydd**

**Prifysgol Glyndŵr Wrecsam** - Ar gyfer ei brosiect 'Outside In', sef grŵp ffocws sy'n defnyddio ffyrdd arloesol i addysgu gweithwyr cymdeithasol y dyfodol. Mae 'Outside In' yn gwneud yn siŵr bod myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn dysgu o brofiad ac arbenigedd unigolion sydd wedi derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol, gwaith cymdeithasol ac iechyd.

## **Y rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol**

**Mudiad Meithrin** - Ar gyfer ei adran hyfforddi a datblygu, sef 'Academi', sy'n cynnig cyfleoedd i staff a gwirfoddolwyr gofal plant, cyfrwng Cymraeg, ddatblygu amrywiaeth o sgiliau a phrofiadau drwy ei raglen hyfforddi genedlaethol. Yn 2018-19, aeth mwy na 2,100 o bobl i 142 o gyrsiau Academi.

**Tîm Partneriaeth Rhanbarthol Gwent** - Ar gyfer ei brosiect 'Consortiwm Coleg Gyrfa Gwent', sy'n cynnig ymagwedd ymarferol at heriau recriwtio trwy gynnig dull cyfannol o ategu datblygu, cymhwyso a recriwtio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngwent.

## **Gwella gofal a chymorth yn y cartref gyda'n gilydd**

Dathlu budd gweithio gyda'n gilydd i gefnogi llesiant pobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain.

## **Enillydd**

**NEWCIS, gogledd-ddwyrain Cymru** - Ar gyfer ei brosiect 'Pontio'r Bwlch', sy'n caniatáu i ofalwyr di-dâl fanteisio ar seibiannau hyblyg a dibynadwy. Mae'n caniatáu i ofalwyr gymryd seibiant fel y bo'n addas i'w hanghenion a gall gynorthwyo yn achos angen brys am seibiant.

## **Y rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol**

**Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint** - Ar gyfer eu prosiect yn darparu gweithgareddau ystyrlon yn ystod y dydd i fwy na 250 o bobl ag anableddau dysgu. Mae'r prosiect yn helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd, datblygu annibyniaeth a llunio cysylltiadau cymdeithasol a gwneud ffrindiau. Hefyd, mae'n gweithio gyda rhaglen byw â chymorth i helpu'r bobl y mae'n eu cynorthwyo, eu rhieni a'u gofalwyr, i fanteisio ar wasanaethau seibiant.

## **Ffyrdd arloesol ac ysbrydoledig o weithio**

Dathlu prosiectau sy'n rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio i gefnogi'r bobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol neu wasanaethau'r blynyddoedd cynnar a gofal plant.

## **Enillydd**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** - Ar gyfer ei brosiect 'Meddwl am y Baban', dull arloesol a chreadigol o gynnig ymyrraeth gynnar effeithiol i deuluoedd mewn ymdrech i wella canlyniadau yn y tymor byr, canolig a hir. Mae'r prosiect yn rhoi cymorth cyn ac ar ôl geni i deuluoedd, gyda'r nod o ostwng nifer y plant sy'n derbyn gofal.

## **Y rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol**

**Cyngor Dinas Casnewydd** - Ar gyfer ei fenter, 'Project Perthyn', sydd wedi ymrwymo i agor tri chartref newydd i blant yn ardal yr awdurdod lleol. Nod y prosiect yw dod â phlant yn ôl i Gasnewydd - i'w cartref, eu hysgol a'u teulu - ac mae'n helpu plant i aros yng Nghasnewydd trwy gynnig math gwahanol o brofiad gofal.

**Cyngor Sir Gâr** - Ar gyfer ei brosiect 'We Can Run', sy'n amcanu at wella iechyd a llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl a hyrwyddo effeithiau cadarnhaol posibl bod yn egnïol ar eu hiechyd meddwl. Mae'r prosiect yn cynnig clwb rhedeg a chyngor ar ffordd o fyw, diet a maeth, ynghyd â gwasanaethau eraill, fel ffisiotherapi a phlatfform cyfathrebu i'w ddefnyddwyr.

## **Gwranddo i a gweithio gyda phobl sy'n byw gyda dementia**

Dathlu prosiectau sy'n rhoi pobl sy'n byw gyda dementia wrth galon eu gwaith fel y gall y rhai sy'n byw gyda dementia cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

### **Enillydd**

**Y Rainbow Centre, ger Wrecsam** - Ar gyfer ei brosiect canolfan ddydd, sef hyb cymunedol pwrpasol sy'n cynnig amrywiaeth o ymyriadau, fel grwpiau ymarfer corff a diddordebau cymdeithasol, allgymorth cymunedol a chyfeillio, ynghyd â chludiant cymunedol a chyfleoedd gwirfoddoli. Nod y prosiect yw hybu heneiddio cadarnhaol a rhoi grym i bobl hŷn fod mor annibynnol â phosibl ac ailgysylltu â'r gymuned leol.

### **Y rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol**

**Cyngor Gwynedd** - Ar gyfer ei brosiect 'DementiaGo', sef gwasanaeth dwyieithog sy'n amcanu at roi cyfle i bobl â dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr, fod yn egniol, cael hwyl a bod yn rhan o gymuned. Mae'r dosbarthiadau'n cynnwys ymarferion i wella cryfder, cydbwysedd a chydysmud, i helpu gyda gweithgareddau bob dydd. Mae chwaraeon, fel tenis bwrdd, yn boblogaidd, felly hefyd cerddoriaeth, canu a dawnsio.

**Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru** - Ar gyfer ei phrosiect yn canolbwyntio ar y ffordd y mae'n ymateb i bobl â dementia. Mae'r prosiect yn datblygu fframwaith dysgu a datblygu i'w staff a'i wirfoddolwyr, atgyfeiriadau mwy effeithiol, amgylcheddau ystyriol o ddementia a phartneriaethau gwell gyda gwasanaethau allweddol. Mae gan bobl sy'n bwy gyda dementia, a'u gofalwyr, llais cryf yng ngwaith y prosiect ac mewn cynlluniau at y dyfodol.

## **Gwobr Gofalwn Cymru**

Mae'r wobwr Gofalwn Cymru yn wobwr newydd ar gyfer Gwobrau 2020. Mae'n dathlu gweithwyr gofal unigol yng Nghymru sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl.

### **Enillydd**

**Sandra Stafford, gofalwr maeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** - Enwebwyd gan weithwyr cymdeithasol Danielle Dally a Sarah Vater.

Mae "gofalwyr maeth eithriadol" Sandra a'i gŵr Mark wedi bod yn ofalwyr maeth er 2001, yn dangos ymrwymiad ac angerdd ac yn darparu ansawdd uchel o ofal. Rhoddwyd un plentyn maeth gyda'r teulu ar ôl iddi gael ei rhyddhau o'r ysbyty. Mae Sandra, fel y prif ofalwr, yn wynebu heriau bob dydd, ond cafodd y plentyn ei chroesawu gyda breichiau agored a rhoddwyd cariad,

sefydlogrwydd a thosturi iddi, a fyddai'n ei galluogi i wneud cynnydd sylweddol wrth adfer. Darparwyd cartref diogel a chariadus i'r plentyn hwn, mae hi'n cael ei derbyn ac yn cael ail gyfle am fywyd ac i gyrraedd ei llawn botensial.

### Gweld trawsgrifiad

Mae'n golygu eu mwynhau nhw, gweithio gyda nhw a bod yn gefn iddyn nhw.

Tua 20 mlynedd yn ôl, roedd gen i ffrind oedd wedi bod yn maethu ers tipyn.

Roedden ni wedi bod yn gohirio maethu oherwydd bod gennym ni dau o blant a oedd yn tyfu i fyny.

Ond pan roedden nhw yn yr ysgol a'r Brifysgol, dyma benderfynu mynd amdani!

Holon ni, a dydyn ni ddim wedi edrych yn ôl ers hynny.

Dwi wrth fy modd yn gofalu am blant, mae'n rhywbeth dwi wedi mwynhau ei wneud erioed pan roedd fy mhlant yn ifanc.

Mae'n brofiad gwerth chweil, mae'n gallu bod yn anodd ar brydiau, coeliwch chi fi, ond fyddwn i ddim yn newid pethau am y byd. Ydi, mae'n rhoi gwefr i chi!

## Y rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol

**Andrew Mack, gweithiwr cymorth gofal i Ymddiriedolaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru yn Rhondda Cynon Taf** - Enwebwyd Andrew gan Emma Baker, pennaeth seibiant a seibiannau byr yr elusen.



Enwebwyd Andrew am ei fod yn “weithiwr cymorth ymroddedig, greddfoll sy’n cyfoethogi ac yn gwella bywydau pob plentyn a theulu y mae’n eu cefnogi”. Mae Andrew yn addasu ei ymagwedd at bob plentyn, gan feithrin perthnasoedd cryf gyda theuluoedd ac yn defnyddio offer cyfathrebu i ddeall eu meddyliau, dymuniadau, teimladau a dewisiadau. Mae e hefyd yn ymgorffori'r Côt Ymarfer, gan hyfforddi ei gydweithwyr i sicrhau cefnogaeth eithriadol i blant a'u gofalwyr. Disgrifir Andrew fel “unigolyn, gydweithiwr a gweithiwr cymorth eithriadol sy’n haeddu’r gydnabyddiaeth uchaf am ei ymroddiad, ei ymrwymiad a’i fedr”.

#### Gweld trawsgrifiad

Rydych chi’n gallu gweld y gwahaniaeth rydych chi’n ei wneud ym mywydau pobl, bob diwrnod o’r wythnos.

Rydych chi hefyd yn eu gweld nhw’n llwyddo i wneud y pethau bychain, yn enwedig y plant rydym ni’n gweithio gyda nhw.

Trin arian, neu fagu’r hyder i fynd i’r cownter ac archebu diod, neu archebu bwyd, a’u gweld nhw’n hapus hefyd.

Wrth eistedd i lawr i sgwrsio gyda nhw, rydych chi’n gweld bod llawer o broblemau, yn enwedig gyda’r genhedlaeth hŷn.

Trwy fynd i sgwrsio gyda nhw, maen nhw’n gallu rhannu eu problemau gyda fi, fel nad ydyn nhw’n rhannu problemau gyda’r person sy’n gofalu amdanyn nhw drwy’r amser, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Rydych chi’n gwneud cymaint â hynny o wahaniaeth, mewn cyn lleied o amser.

Dyw llawer o bobl ddim yn deall beth rydych chi’n ei wneud fel gofalwr.

Dwi'n credu y dylai pawb sy'n gwneud y swydd hon, pawb sydd wedi gwneud gwaith gofalu, dylen nhw gael eu cydnabod am hynny.

Efallai y bydda i'n lwcus, pwy a wŷr.

**Jackie Moon, cynorthwydd domestig yng Nghartref Porthceri i Bobl Hŷn yn y Barri** - Enwebwyd Jackie gan reolwr gweithrediadau'r cartref, Marijke Jenkins.

Fel Hyrwyddwr Dementia Cartref, dechreuodd Jackie prosiect pontio'r cenhedloedd yn dod â phreswylwyr y cartref a phlant ysgol leol at ei gilydd bob pythefnos. Mae'r prosiect hwn wedi ysgogi ac ennyn diddordeb y preswylwyr a chynyddu hyder y bobl ifanc. Mae hefyd wedi helpu i chwalu stereoteipiau niweidiol a hybu mwy o ymdeimlad o gyd-barch a dealltwriaeth, gan ysgogi'r bobl ifanc i fod yn Gyfeillion Dementia a helpu i sefydlu cymuned leol sy'n deall dementia. Mae Jackie wedi ysbrydoli pobl eraill ac mae hi'n helpu i gyflwyno'r rhaglen hon ledled Bro Morgannwg.

Gweld trawsgrifiad

Yma yn Cartref, rydym ni'n gwahodd y plant o ysgol Romilly i ddod draw, a gwneud gweithgareddau gyda'r plant a siarad gyda nhw.

Rydym ni'n peintio, chwarae bingo, gwneud celf a chrefft ac mae'r plant wrth eu boddau, ac maen nhw'n dwlu ar y preswylwyr.

Mae wedi bod yn llwyddiannus iawn am fod y plant am ddod yn ôl, fel gwirfoddolwyr.

Dyw llawer o ofalwyr ddim yn cael y clod maen nhw'n ei haeddu, ond mae'n waith caled iawn ar adegau, ac weithiau mae'n talu ar ei ganfed os ydych chi'n gwneud i un o'r preswylwyr chwerthin, mae'n gwneud eich diwrnod.

Mae'n lle braf iawn i weithio i fod yn onest, os yw'n gwneud rhywun yn hapus, ma' hynny'n beth braf iawn.

## **Jayne Jenkins, gweithiwr gofal cartref i Dîm Bridgestart (CRT) ym Mhen-y-bont ar Ogwr** - Enwebwyd Jayne gan Paul Jones.

Enwebwyd Jayne am ei gwaith yn gofalu am dad Paul Jones, a dderbyniodd gofal lliniarol ar gyfer canser angheuol. Chwaraeodd Jayne ran ganolog yn llesiant, ymwybyddiaeth ofalgar a phositifrwydd tad Paul, ac fe'i hanogodd i wenu, siarad a dod mor annibynnol ag y gallai fod yn ystod ei hymweliadau. Mae Paul yn disgrifio Jayne fel "gweithiwr proffesiynol o'r radd flaenaf", "seren go iawn" a "thipyn o arwres". Meddai Paul: "Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fod yn falch iawn o gael rhywun mor ymroddgar, cyfeillgar a brwdfrydig ynglŷn â'i rôl â Jayne yn gweithio gyda nhw".

### Gweld trawsgrifiad

Roedd honna'n arbediad da!

Does yna ddim digon o ofalwyr, a dyw gofalwyr ddim yn cael eu gwerthfawrogi hanner digon.

Mae cenedlaethau'n heneiddio mwy a mwy, ac mae angen mwy o bobl sydd â natur ofalgar.

Pan gwrddais ag ef gyntaf roedd e'n ddistaw iawn ac wedi mynd i'w gragen, ond erbyn i ni orffen roedd e'n berson cwbl wahanol.

Mae gennym ni gwllwm teuluol da hefyd, rydyn ni wedi dod yn ffrindiau. Roedden nhw'n arfer gwneud bwyd i ni ac roedd hi'n ymddwyn fel ein mam

ni oll.

Rydw i wastad yn chwerthin ac yn canu er nad wy'n gallu canu - ond rydym ni'n rhoi cynnig arni.

Rydw i'n caru fy ngwaith, rydw i'n hoffi cyfarfod pobl ac os galla i roi gwên ar eu hwyneb, dyna ddiwrnod da o waith.

**Kate Mellor, gweithiwr cymorth preswyl / gweithiwr allweddol yn QEWC yn Sir y Fflint** - Enwebwyd Kate gan ei harweinydd tîm Curtis Baines.

Enwebwyd Kate am ei gwaith gyda'i phlentyn allweddol, y mae hi wedi bod yn ffigur allweddol a chyson iddi, a'i model rôl/gwarcheidwad pwysicaf. Dros y tair blynedd diwethaf, mae Kate wedi adeiladu hyder y plentyn, ac wedi'i gweddnewid yn berson ifanc cryf, annibynnol a hyderus. Mae Kate yn hyrwyddo'n weithredol treftadaeth Lithwanaidd ei phlentyn allweddol ac yn aml yn mynychu ei digwyddiadau yn ei hamser rhydd. Mae Curtis yn disgrifio bond Kate gyda'i phlentyn allweddol fel un "arbennig iawn", ac meddai, "allwn i ddim bod yn fwy balch o weld gwaith mor ardderchog ac anhunanol".

**Gweld trawsgrifiad**

Dyw hi ddim yn rhywun sy'n siarad llawer, felly mae angen i chi nabod hi i wybod beth fydd hi'n ei hoffi a gwybod beth fydd hi'n ei wneud.

Rydw i wedi meithrin perthynas felly gyda hi dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf, a dwi'n teimlo fy mod i'n ei nabod hi rwan.

Rydw i'n gwybod ac yn gallu rhagweld sut bydd hi a beth fydd hi'n ei wneud ac rwy'n gallu achub y blaen mewn sefyllfaoedd.

Yn bersonol, rwy'n credu mai'r peth mwyaf gwerth chweil yw gwneud gwahaniaeth a'i gweld hi'n mynd allan ac yn gwneud ffrindiau. Mae ei gweld hi'n dangos esiampl i'r plant eraill yn wych. Mae'n beth da iawn.

Gallu ei gweld hi'n tyfu a'r newid ynddi ers pan ddaeth hi ddwy flynedd a hanner yn ôl i rwan ac mae cael ei gweld hi'n newid ac yn tyfu i fyny yn hyfryd.

## Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn edrych amdano, [cysylltwch â ni](#).